

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held  
at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 12fed  
Rhagfyr, 2024 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor Su McConnel (Chairman)  
County Councillor Peter Strong (Vice Chairman)

County Councillors: Rachel Buckler, Laura Wright, Tony Kear, Catrin Maby, Jan Butler, Ian Chandler, Sara Burch, Alistair Neill, Mary Ann Brocklesby, Jane Lucas, Emma Bryn, Meirion Howells, Paul Griffiths, Jackie Strong, Rachel Garrick, Steven Garratt, Angela Sandles, Ben Callard, John Crook, Tomos Davies, Dale Rooke, Jayne McKenna, Jill Bond, Louise Brown, Tony Easson, Christopher Edwards, Martyn Groucutt, Simon Howarth, Richard John, David Jones, Penny Jones, Malcolm Lane, Phil Murphy, M. Newell, Paul Pavia, Maureen Powell, Frances Taylor, Tudor Thomas, Armand Watts and Ann Webb

## OFFICERS IN ATTENDANCE:

Peter Davies	Prif Swyddog, Adnoddau
Will Mclean	Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Jonathan Davies	Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
James Williams	Chief Officer Law & Governance
Matthew Gatehouse	Pennaeth Polisi a Llywodraethiant
Ian Saunders	Prif Swyddog Gweithredu, BywydMynwy
Deb Hill-Howells	Pennaeth Gwasanaethau Landlord Masnachol ac Integredig
Craig O'Connor	Pennaeth Cynllunio
Hazel Clatworthy	Swyddog Polisi Cynaliadwyedd

## APOLOGIES:

County Councillors Fay Bromfield, Maria Stevens, Sue Riley and Lisa Dymock

### 1. Argyfyngau Lleol

Diolchodd y Cadeirydd, Arweinwyr Grŵp a'r Prif Weithredwr Dros Dro i staff, partneriaid a gwasanaethau brys Cyngor Sir Fynwy am y cymorth a ddarparwyd yn ystod y tri argyfwng lleol a brofwyd yn y Sir yn ymwneud â llifogydd, y tân yn y Fenni, a stormydd diweddar.

<https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=kNMDTjyW0cXa3u2r&t=64>

### 2. Croeso

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sirol Martin Newell i'w Gyfarfod Cyngor Sir cyntaf.

### 3. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cynghorydd Sirol Jayne McKenna fuddiant personol, nad oedd yn rhagfarnol, mewn perthynas ag eitem 8.2 ar yr agenda gan fod ei thad yn ffermwr.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 12fed Rhagfyr, 2024 at 2.00 pm

Datganodd y Cynghorydd Sirol Rachel Buckler fuddiant personol, nad oedd yn rhagfarnol, mewn perthynas ag eitem 8.2 ar yr agenda.

Datganodd y Cynghorydd Sirol David Jones fuddiant personol a rhagfarnol mewn perthynas ag eitem 8.2 ar yr agenda. Gadawodd y cyfarfod heb gymryd dim rhan yn y drafodaeth na phleidleisio mewn perthynas â'r Cynnig hwn.

Datganodd y Cynghorydd Sirol Jane Lucas fuddiant personol, nad oedd yn rhagfarnol, mewn perthynas ag eitem 8.2 ar yr agenda.

Datganodd y Cynghorydd Sirol Simon Howarth fuddiant personol a rhagfarnol mewn perthynas ag eitem 8.2 ar yr agenda. Gadawodd y cyfarfod heb gymryd dim rhan yn y drafodaeth na phleidleisio mewn perthynas â'r Cynnig hwn.

Datganodd y Cynghorydd Sirol Su McConnel fuddiant personol a rhagfarnol mewn perthynas ag eitem 8.2 ar yr agenda gan mai ei gŵr yn fuddiolwr mewn ewyllys sy'n effeithio ar fferm deuluol. Gadawodd y cyfarfod heb gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio arno mewn perthynas â'r Cynnig hwn.

Datganodd y Cynghorydd Ann Webb fuddiant personol, nad yw'n rhagfarnol mewn perthynas ag eitem 8.2.

<https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=biXUeZUmFbhJ9JCI&t=843>

#### **4. Cyhoeddiad y Cadeirydd**

Nodwyd Cyhoeddiad y Cadeirydd.

<https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=UWidK63LyvMkk4BL&t=1020>

#### **5. Deisebau sydd wedi eu derbyn**

Cyflwynodd y Cynghorydd Sirol Jackie Strong ddeiseb i'r Cyngor Sir ar ran trigolion Cil-y-coed. Mae'r ddeiseb yn dwyn y teitl 'Dylunio dros Iechyd a Diogelwch?' a oedd yn ymwneud â diogelwch y groesfan sebra ar Sandy Lane gerllaw tafarn The Cross.

Nodwyd y byddai'r ddeiseb yn cael ei chyfeirio at gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Lleoedd, gyda gwahoddiad i'r Aelod Cabinet perthnasol a'r swyddogion i annerch y Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r mater.

[https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=vx5ZPRxabm\\_OQkK&t=1028](https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=vx5ZPRxabm_OQkK&t=1028)

#### **6. Cwestiynau Cyhoeddus**

<https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=OCeWJhdckkp7mNrU&t=1173>

Croesawodd y Cadeirydd Mr Jonty Pearce i'r cyfarfod. Rhoddodd Mr Pearce gyflwyniad i'r Aelodau o'r enw 'Pam mae Cyngor Sir Fynwy wedi dileu gwarchodaeth allweddol ar gyfer Ystlumod Trwyn Pedol Fwyaf Trefynwy sydd mewn perygl?'

Nodwyd y cwestiynau canlynol:

- Pam fyddai'r Cyngor yn gwneud hyn?

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 12fed Rhagfyr, 2024 at 2.00 pm

- Pam na fyddai'r Cyngor am gryfhau, nid gwanhau gwarchodaeth ar gyfer yr ystlumod?
- Pam fyddai'r Cyngor am ei gwneud hi mor hawdd i'r datblygwr ddatblygu tai?

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd, y Dirprwy Arweinydd, i Mr Pearce am ei gyflwyniad a rhoddodd ymateb:

- Nid cred yr Awdurdod yw ei fod wedi cael gwared ar warchodaeth o ran unrhyw nodwedd ecolegol yn y Sir, gan gynnwys Ystlumod Trwyn Pedol Fwyaf.
- Mae'r safle sy'n cael ei gynnig yn safle llai na'r hyn a gynigiwyd yn flaenorol ac a gafodd ei wahanu'n fwiadol oddi wrth gynefin Ystlumod Trwyn Pedol Fwyaf. Er gwaethaf hynny, yr wybodaeth a gylchredwyd heddiw yw asesiad y cynefin sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol adneuo arfaethedig.
- Nid oes gennym yr awdurdod i gael gwared ar unrhyw amddifyniad o ran unrhyw rywogaeth na safle.
- Yn unol â deddfwriaeth, ystyrir pob cam o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) am ei effeithiau niweidiol posibl ar safleoedd a warchodir o dan Reoliad Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau.
- Mae'r Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd ar gyfer y CDLIN Adneuo yn ystyried pob polisi o'r cynllun ochr yn ochr ag ef ac ar gael ar wefan Cyngor Sir Fynwy.
- Yn ogystal, pe bai'r safle arfaethedig hwn yn dod i'r amlwg fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol Newydd a gymeradwywyd, yna byddai angen cais cynllunio ar unrhyw ddatblygiad ar y safle hwnnw, a byddai arolygon ecolegol manwl yn cael eu cyflwyno a strategaethau lliniaru a gwella arfaethedig i fodloni gofynion y CDLIN a'r Ddeddfwriaeth Cynllunio Genedlaethol.
- Mae'r pwyntiau a godwyd yn bwysig a chytunodd yr Aelod Cabinet i roi ystyriaeth ddifrifol iddynt.
- Ar hyn o bryd rydym mewn proses ymgynghori a bydd y mater hwn a godwyd yn rhan o'r broses ymgynghori.
- Bydd modd dod i'r casgliad y byddai gwelliannau pellach i'r Cynllun Datblygu Lleol adneuo yn fuddiol yng ngoleuni'r cyflwyniad a dderbyniwyd a'r cwestiynau a godwyd, a byddwn yn gallu dod ag unrhyw newidiadau yn ôl i'r Cyngor yn yr adroddiad o'r ymgynghoriad.
- Yn ogystal, bydd y drafodaeth heddiw yn cael ei hadrodd i'r Arolygiaeth Gynllunio. Bydd yr Arolygydd hefyd yn ystyried a yw'r testun o fewn y Cynllun Datblygu Lleol yn cydymffurfio â'r pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad.

Gofynnodd Mr Pearce y cwestiwn atodol canlynol:

A allai'r Aelod Cabinet egluro pam yr ystyriwyd bod geiriad y cwestiwn gwreiddiol yn rhy ragnodol a pham y cafodd y geiriad hwnnw a fyddai wedi diogelu'r ystlumod ei ddileu?

Ymatebodd yr Aelod Cabinet:

- Mae cydbwysedd i'w daro bob amser rhwng polisiâu sy'n angenrheidiol ar gyfer diogelu pob buddiant, gan gynnwys ein buddiannau amgylcheddol, ac a yw'r cydbwysedd hwnnw wedi'i sicrhau yn unol â'r angen posibl am ddatblygiadau ochr yn ochr ag ef. Mae p'un a oes gennym y cydbwysedd cywir yn un y byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach iddo.

#### **7. I gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24ain Hydref 2024**

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 12fed Rhagfyr, 2024 at 2.00 pm

Penderfynodd y Cyngor dderbyn y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2024.

<https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=TuGYBkW-NPGcetrq&t=1794>

#### **8. Adroddiadau i'r Cyngor:**

#### **9. CYNGOR PENCAMPWR DIM DIGOEDWIGO**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad o'r enw Cyngor Pencampwr Dim Digoedwigo, i'r Aelodau ei ystyried. Amlygodd yr adroddiad y bygythiad y mae coedwigoedd trofannol yn ei wynebu ac ymrwymo i ddeall yn well sut y gallai Cyngor Sir Fynwy fod yn cyfrannu at ddigoedwigo, trwy lofnodi'r Siarter Pencampwyr Dim Digoedwigo ac ymrwymo i ddatblygu cynllun gweithredu sy'n amlinellu sut y byddwn yn lleihau ein heffaith ar ddigoedwigo ac yn codi ymwybyddiaeth o'r materion yn ein cymunedau.

Bu myfyrwyr o rai o ysgolion Sir Fynwy yn annerch y Cyngor cyn i'r adroddiad gael ei drafod a phleidleisio arno.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion:

- Bod y Cyngor yn lofnodi Siarter Pencampwyr Dim Digoedwigo.
- Bod swyddogion yn datblygu ac yn gweithredu cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd fel Pencampwyr Dim Digoedwigo i ddeall a lleihau ein heffaith ar ddatgoedwigo trofannol ac i hyrwyddo pwysigrwydd y materion hyn yn ein cymunedau. Rydym eisoes wedi cymryd rhai o'r camau hyn dros y flwyddyn ddiwethaf mewn cydweithrediad â phobl ifanc Sir Fynwy.

Yn dilyn y bleidlais, cyflwynodd y myfyrwyr Fathodynau Cymunedau Dim Digoedwigo i Gadeirydd ac Is-gadeirydd Cyngor Sir Fynwy, yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd ac Arweinwyr Grwpiau.

[https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=qdGkYQTftSC\\_U-U4&t=1854](https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=qdGkYQTftSC_U-U4&t=1854)

#### **10. SIARTER AR GYFER TEULUOEDD SYDD WEDI PROFI PROFEDIGAETH DRWY DRASIEDI GYHOEDDUS (Siarter Hillsborough)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad yn amlinellu 'Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Profi Profedigaeth drwy Drasiedi Gyhoeddus' (Siarter Hillsborough) ac i ofyn am gytundeb y Cyngor i fabwysiadu ac ymrwymo i'r egwyddorion a amlinellir yn yr ymateb i ddiwyddiad mawr.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion:

- Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Profi Profedigaeth drwy Drasiedi Gyhoeddus (Siarter Hillsborough) ac yn hyrwyddo'r amgylchedd tryloyw a chefnogol i deuluoedd sydd mewn profedigaeth oherwydd trasiedi gyhoeddus fel yr amlinellir yn y Siarter.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 12fed Rhagfyr, 2024 at 2.00 pm

- Bod y siarter yn cael ei gwreiddio yng Nghynllun Rheoli Argyfwng Cyngor Sir Fynwy a chynlluniau ymateb i ddigwyddiadau mawr priodol eraill i sicrhau y gellir cyfeirio'n hawdd at yr egwyddorion a nodir, eu monitro a'u cadw yn ystod ymateb.

<https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=vCP3uVS81Lw27gzG&t=3239>

#### 11. Penodiadau i Gyrrff Allanol

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i benodi Cynghorwyr Sirol i gynrychioli'r awdurdod ar Gyd-gyngor Cymru a bwrdd Y Prentis.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion:

- Cymeradwyo penodi'r Cynghorydd Sirol Ben Callard i Gyd-gyngor Cymru, ochr yn ochr â'r Cynghorydd Sirol Phil Murphy.
- Cymeradwyo penodiad y Cynghorydd Sirol Paul Griffiths, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd a'r Dirprwy Arweinydd i Fwrdd Y Prentis.

<https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=V7Xz3fGMDNVP5X7f&t=3764>

#### 12. Cynigion i'r Cyngor:

#### 13. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol Jan Butler

Cyflwynodd y Cynghorydd Sirol Jan Butler y cynnig:

##### Mae'r Cyngor hwn:

- Yn diolch i'r gweithwyr brys, gwirfoddolwyr a phawb a gefnogodd drigolion Sir Fynwy yn ystod Storm Bert.
- Yn mynegi pryder y bydd diffyg cynnal a chadw seilwaith draenio'r sir wedi gwaethygu peryglon llifogydd.
- Yn galw ar y Cyngor i ailasesu ei brosesau i liniaru digwyddiadau llifogydd a gwerthuso maint ac ariannu'r gweithlu sy'n ymroddedig i gynnal a chadw draeniau a rheoli'r amgylchedd.

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sirol Richard John.

[https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=V-1stVrNCQOny\\_Vz&t=4813](https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=V-1stVrNCQOny_Vz&t=4813)

Cynigiodd y Cynghorydd Sirol Catrin Maby diwygiad i'r Cynnig:

- Yn diolch i'r gweithwyr brys, gwirfoddolwyr a phawb a gefnogodd drigolion Sir Fynwy yn ystod Storm Bert.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held  
at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 12fed  
Rhagfyr, 2024 at 2.00 pm**

- Yn cydnabod amllder cynyddol digwyddiadau tywydd garw sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, a'r angen am sawl math o ymyrraeth i liniaru'r effaith ar ein cymunedau.
- Yn galw ar y cyngor i ailasesu ei brosesau i liniaru digwyddiadau llifogydd a gwerthuso maint ac ariannu'r gweithlu sy'n ymroddedig i gynnal a chadw draeniau a rheoli'r amgylchedd.

Eiliwyd gan y Cyngorydd Sirol Chandler.

Aethom ymlaen i drafod y diwygiad arfaethedig i'r Cynnig.

Arferodd y Cyngorydd Sirol Jan Butler, cyflwynydd y Cynnig gwreiddiol, ei hawl i ateb mewn perthynas â'r diwygiad arfaethedig i'r Cynnig.

[https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=gZCU\\_TJ\\_0DfM9BZd&t=5755](https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=gZCU_TJ_0DfM9BZd&t=5755)

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid y diwygiad	-	21
Yn erbyn y diwygiad	-	21
Ymatal	-	0

Roedd y bleidlais yn gyfartal.

Oherwydd bod y bleidlais yn gyfartal, cynhaliwyd pleidlais a gofnodwyd:

O blaid y diwygiad	-	21
Yn erbyn y diwygiad	-	21
Ymatal	-	0

Oherwydd i'r bleidlais fod yn gyfartal, arferodd y Cadeirydd ei phleidlais fwrw a phleidleisiodd o blaid y diwygiad. Cafodd y diwygiad arfaethedig ei dderbyn.

<https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=hl7gYtqcMF10uG4Y&t=9478>

ENW	O blaid	Yn erbyn	Ymwrthod
Y Cyngorydd Sirol J BOND	X		
Y Cyngorydd Sirol M A BROCKLESBY	X		
Y Cyngorydd Sirol F BROMFIELD Ymddiheuriadau			
Y Cyngorydd Sirol L BROWN		X	
Y Cyngorydd Sirol E BRYN		X	
Y Cyngorydd Sirol R BUCKLER		X	
Y Cyngorydd Sirol S BURCH	X		
Y Cyngorydd Sirol J BUTLER		X	
Y Cyngorydd Sirol B CALLARD	X		
Y Cyngorydd Sirol I CHANDLER	X		
Y Cyngorydd Sirol J CROOK	X		
Y Cyngorydd Sirol T DAVIES		X	
Y Cyngorydd Sirol L DYMOCK			

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held  
at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 12fed  
Rhagfyr, 2024 at 2.00 pm

Ymddiheuriadau			
Y Cyngorydd Sirol A. EASSON:	X		
Y Cyngorydd Sirol C EDWARDS		X	
Y Cyngorydd Sirol M NEWELL		X	
Y Cyngorydd Sirol S GARRATT	X		
Y Cyngorydd Sirol R GARRICK	X		
Y Cyngorydd Sirol P GRIFFITHS	X		
Y Cyngorydd Sirol M GROUCUTT	X		
Y Cyngorydd Sirol S.G.M. HOWARTH		X	
Y Cyngorydd Sirol HOWELLS	X		
Y Cyngorydd Sirol R JOHN		X	
Y Cyngorydd Sirol D. W. H. JONES		X	
Y Cyngorydd Sirol P JONES		X	
Y Cyngorydd Sirol T KEAR		X	
Y Cyngorydd Sirol M LANE		X	
Y Cyngorydd Sirol J LUCAS		X	
Y Cyngorydd Sirol C MABY	X		
Y Cyngorydd Sirol S MCCONNEL	X		
Y Cyngorydd Sirol J MCKENNA		X	
Y Cyngorydd Sirol P MURPHY		X	
Y Cyngorydd Sirol A NEILL		X	
Y Cyngorydd Sirol P PAVIA		X	
Y Cyngorydd Sirol M POWELL		X	
Y Cyngorydd Sirol S RILEY			
Ymddiheuriadau			
Y Cyngorydd Sirol D ROOKE	X		
Y Cyngorydd Sirol A SANDLES	X		
Y Cyngorydd Sirol M STEVENS			
Ymddiheuriadau			
Y Cyngorydd Sirol J STRONG	X		
Y Cyngorydd Sirol P STRONG	X		
Y Cyngorydd Sirol TAYLOR		X	
Y Cyngorydd Sirol T THOMAS	X		
Y Cyngorydd Sirol A WATTS	X		
Y Cyngorydd Sirol A WEBB		X	
Y Cyngorydd Sirol L WRIGHT	X		

Aeth yr Aelodau ymlaen i drafod y Cynnig diwygiedig.

Cynigiodd y Cyngorydd Sir Tomos Davies ddiwygiad i'r cynnig.

Derbyniodd y Cyngorydd Sirol Jan Butler y diwygiad.

Mae'r cynnig diwygiedig nawr yn darllen:

- Yn diolch i'r gweithwyr brys, gwirfoddolwyr a phawb a gefnogodd drigolion Sir Fynwy yn ystod Storm Bert.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held  
at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 12fed  
Rhagfyr, 2024 at 2.00 pm

- Yn cydnabod amllder cynyddol digwyddiadau tywydd garw sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, a'r angen am sawl math o ymyrraeth i liniaru'r effaith ar ein cymunedau, gan gynnwys cynnal seilwaith draenio'r sir.
- Yn galw ar y cyngor i ailasesu ei brosesau i liniaru digwyddiadau llifogydd a gwerthuso maint ac ariannu'r gweithlu sy'n ymroddedig i gynnal a chadw draeniau a rheoli'r amgylchedd.

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid y cynnig diwygiedig	-	36
Yn erbyn y cynnig diwygiedig	-	1
Ymatal	-	0

DERBYNIWYD y cynnig diwygiedig.

### **14. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol Rachel Buckler**

Cyflwynodd y Cynghorydd Sirol Rachel Buckler y cynnig:

#### **Mae'r Cyngor hwn:**

- Yn gwerthfawrogi rôl ffermwyr Sir Fynwy yn fawr wrth gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel, darparu diogelwch bwyd a gweithredu fel gwarcheidwaid ein hamgylchedd naturiol.
- Yn gresynu at newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i'r dreth etifeddiant, yn benodol cael gwared ar Ryddhad Eiddo Amaethyddol, sy'n bygwth dyfodol ffermydd teuluol yn Sir Fynwy.
- Yn cytuno i weithio gydag undebau ffermio lleol a chynghorau eraill Cymru i berswadio Llywodraeth y DU i amddiffyn ein cymunedau gwledig a pheidio â lladd ffermydd teuluol.

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sirol Maureen Powell.

<https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=Gz2EIN1G0VPMof3T&t=12181>

Cynigiodd y Cynghorydd Sirol Sara Burch diwygiad i'r Cynnig:

#### **Mae'r Cyngor hwn:**

- Yn gwerthfawrogi rôl ffermwyr Sir Fynwy yn fawr wrth gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel, darparu diogelwch bwyd a gweithredu fel gwarcheidwaid ein hamgylchedd naturiol.



## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 12fed Rhagfyr, 2024 at 2.00 pm

- Yn cydnabod bod llawer o ffermwyr yn wynebu cyfnod arbennig o anodd o ganlyniad i bolisïau llywodraethau blaenorol San Steffan, gan gynnwys Brexit, cytundebau masnach a drafodwyd yn wael a'r methiant i reoli grym yr archfarchnadoedd, yn ogystal ag ansefydlogrwydd byd-eang ac effeithiau cynyddol newid yn yr hinsawdd.
- Yn cydnabod bod newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i'r dreth etifeddiant, yn benodol cyfyngu ar Ryddhad Eiddo Amaethyddol, yn cael eu hystyried yn fygythiad i ddyfodol ffermydd teuluol yn Sir Fynwy.
- Yn cytuno i weithio gydag undebau ffermio lleol a chynghorau eraill Cymru i amddiffyn ein cymunedau cefn gwlad, i'w cefnogi i ffynnu ac i gynnal trosglwyddiad rhwng cenedlaethau busnesau fferm deuluol.

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sirol Dale Rooke.

Aethom ymlaen i drafod y diwygiad arfaethedig i'r Cynnig.

Arferodd y Cynghorydd Sirol Rachel Buckler, cyflwynydd y Cynnig gwreiddiol, ei hawl i ateb mewn perthynas â'r diwygiad arfaethedig i'r Cynnig.

<https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=XWUf5Xlq7qDV4VP&t=13891>

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid y diwygiad	-	21
Yn erbyn y diwygiad	-	17
Ymatal	-	0

DERBYNIWYD y Diwygiad.

Aeth yr aelodau ymlaen i drafod y cynnig sylweddol, fel y'i diwygiwyd.

Cynigiodd y Cynghorydd Sirol Tomos Davies diwygiad i'r pwynt bwled cyntaf:

#### **Mae'r Cyngor hwn:**

- Yn cydnabod bod llawer o ffermwyr yn wynebu cyfnod arbennig o anodd o ganlyniad i bolisïau llywodraethau blaenorol San Steffan, gan gynnwys Brexit, cytundebau masnach sydd wedi'u negodi'n wael a'r methiant i reoli grym yr archfarchnadoedd, yn ogystal ag ansefydlogrwydd byd-eang ac effeithiau cynyddol newid yn yr hinsawdd [yn ogystal

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 12fed Rhagfyr, 2024 at 2.00 pm

ag ansicrwydd parhaus yn sgil diwygiadau Llywodraeth Cymru ei hun].

- Yn cydnabod bod newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i'r dreth etifeddiant, yn benodol cyfyngu ar Ryddhad Eiddo Amaethyddol, yn cael eu hystyried yn fygythiad i ddyfodol ffermydd teuluol yn Sir Fynwy.
- Yn cytuno i weithio gydag undebau ffermio lleol a chynghorau eraill Cymru i amddiffyn ein cymunedau cefn gwlad, i'w cefnogi i ffynnu ac i gynnal trosglwyddiad rhwng cenedlaethau busnesau fferm deuluol.

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sirol Jane Lucas.

Gan nad oedd unrhyw geisiadau i siarad ar y gwelliant yn amodol ar yr ail ddiwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sirol Davies, aethom ymlaen i'r bleidlais:

O blaid y diwygiad	-	32
Yn erbyn y diwygiad	-	3
Ymatal	-	1

DERBYNIWYD y Diwygiad.

Aethom ymlaen i drafod y Cynnig diwygiedig.

Defnyddiodd y Cynghorydd Sirol Rachel Buckler, cyflwynydd y Cynnig gwreiddiol, ei hawl i ymateb mewn perthynas â'r cynnig diwygiedig.

Ar ôl cael i roi i bleidlais cafodd y Cynnig, fel y'i diwygiwyd, ei dderbyn.

O blaid	-	21
Yn erbyn	-	18
Ymatal	-	0

<https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=l5NkF3fxlorXdTjs&t=16497>

ENW	O blaid	Yn erbyn	Ymwrth
Y Cynghorydd Sirol J BOND	X		
Y Cynghorydd Sirol M A BROCKLESBY	X		
Y Cynghorydd Sirol F BROMFIELD Ymddiheuriadau			
Y Cynghorydd Sirol L BROWN		X	

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held  
at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 12fed  
Rhagfyr, 2024 at 2.00 pm**

Y Cyngorydd Sirol E BRYN	X		
Y Cyngorydd Sirol R BUCKLER		X	
Y Cyngorydd Sirol S BURCH	X		
Y Cyngorydd Sirol J BUTLER		X	
Y Cyngorydd Sirol B CALLARD	X		
Y Cyngorydd Sirol I CHANDLER	X		
Y Cyngorydd Sirol J CROOK	X		
Y Cyngorydd Sirol T DAVIES		X	
Y Cyngorydd Sirol L DYMOCK Ymddiheuriadau			
Y Cyngorydd Sirol A. EASSON:	X		
Y Cyngorydd Sirol C EDWARDS		X	
Y Cyngorydd Sirol M NEWELL		X	
Y Cyngorydd Sirol S GARRATT	X		
Y Cyngorydd Sirol R GARRICK			
Y Cyngorydd Sirol P GRIFFITHS	X		
Y Cyngorydd Sirol M GROUCUTT	X		
Y Cyngorydd Sirol S.G.M. HOWARTH			
Y Cyngorydd Sirol HOWELLS	X		
Y Cyngorydd Sirol R JOHN		X	
Y Cyngorydd			

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held  
at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 12fed  
Rhagfyr, 2024 at 2.00 pm**

Sirol D. W. H. JONES			
Y Cynghorydd Sirol P JONES		X	
Y Cynghorydd Sirol T KEAR		X	
Y Cynghorydd Sirol M LANE		X	
Y Cynghorydd Sirol J LUCAS		X	
Y Cynghorydd Sirol C MABY	X		
Y Cynghorydd Sirol S MCCONNEL			
Y Cynghorydd Sirol J MCKENNA		X	
Y Cynghorydd Sirol P MURPHY		X	
Y Cynghorydd Sirol A NEILL		X	
Y Cynghorydd Sirol P PAVIA		X	
Y Cynghorydd Sirol M POWELL		X	
Y Cynghorydd Sirol S RILEY	X		
Y Cynghorydd Sirol D ROOKE	X		
Y Cynghorydd Sirol A SANDLES	X		
Y Cynghorydd Sirol M STEVENS Ymddiheuriadau			
Y Cynghorydd Sirol J STRONG	X		
Y Cynghorydd Sirol P STRONG	X		
Y Cynghorydd Sirol TAYLOR		X	
Y Cynghorydd Sirol T THOMAS	X		
Y Cynghorydd Sirol A WATTS	X		

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 12fed Rhagfyr, 2024 at 2.00 pm

Y Cyngorydd Sirol A WEBB		X	
Y Cyngorydd Sirol L WRIGHT	X		

*Yn dilyn yr eitem hon ar yr agenda, galwodd yr Is-Gadeirydd am egwyl fer.  
Yn ystod y cyfnod hwn, gadawodd y Cyngorwyr Sirol Tudor Thomas,  
Malcolm Lane, Frances Taylor ac Ann Webb, y cyfarfod ac ni  
ddychwelodd.*

### 15. Cwestiynau'r Aelodau:

### 16. O'r Cyngorydd Sirol Steven Garratt i'r Cyngorydd Sirol Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd

*A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaharddiad arbrofol o yrru (ac eithrio  
mynediad) ar y rhan o Goldwire Lane, Trefynwy o'r gyffordd â Somerset Road i'r gyffordd â  
Drybridge Street?*

Eglurodd yr Aelod Cabinet fod Goldwire Lane yn stryd unffordd yn Nhrefynwy sy'n cysylltu  
mewn siâp 'U' o Cinderhill Street i lawr i Drybridge Street. Mae gan y ddolen sy'n rhedeg i lawr i  
Drybridge Street ddarn cul ar y diwedd gyda phalmentydd cul. Dyma'r maes sy'n  
ddarostyngedig i'r Gwaharddiad Gyrru ac eithrio mynediad i eiddo.

Dyma'r unig lwybr uniongyrchol ar gyfer cerddwyr i mewn i'r dref. Mae blociau o fflatiau tai  
lloches ar Goldwire Lane a'r trigolion hyn a ddaeth at yr Awdurdod gyda chais i rywbeth gael ei  
wneud i fynd i'r afael â'r peryglon sy'n wynebu cerbydau sy'n defnyddio'r llwybr hwn fel llwybr  
byr. Yn ddiweddar, roedd 11 o drigolion wedi ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ynglŷn â'r llwybr  
hwn a gofyn i'r lôn gael ei chau i draffig trwodd. Mae'r llwybr yn cael ei ddefnyddio fel llwybr  
cerdded a beicio i'r dref.

Mae llwybr amgen wedi'i nodi'n glir ar gyfer cerbydau ar hyd Somerset Road, felly nid oes  
angen i gerbydau ddefnyddio'r lôn fel llwybr byr. Mae'r llwybr byr yn beryglus i bobl sy'n  
cerdded neu'n olwyna ar hyd y lôn, i bobl sy'n croesi pen y lôn yn Drybridge Street lle mae ceir  
sy'n dod allan yn rhwystro'r groesfan o balmart i balmart, ac i draffig ar Drybridge Street gyda  
cheir yn dod o ffynhonnell annisgwyl gyda gwelededd gwael yn agos at y gylchfan, ac yn  
rhwystro llif y traffig ar y stryd hon. Mae mân ddamweiniau wedi digwydd yn y lleoliad hwn.

Gohiriwyd y Gorchymyn Gwahardd yn ystod gwaith Dŵr Cymru ond cafodd ei weithredu ar 25<sup>ain</sup>  
Hydref 2024. Fodd bynnag, mae llawer o yrrwyr yn parhau i anwybyddu'r Gorchymyn ac yn  
parhau i ddefnyddio'r llwybr byr. Mynegodd yr Aelod Cabinet bryder, drwy barhau i siarad yn ei  
herbyn, y gallai cyngorwyr fod yn annog gyrwyr i barhau i ddefnyddio'r lôn, sy'n peri perygl  
gwirioneddol i bobl agored i newid. Gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r Aelodau i feddwl am les pobl  
yn Nhrefynwy gan gynnwys tagfeydd traffig ac ansawdd aer.

Fel cwestiwn atodol, gofynnodd y Cyngorydd Sirol Garratt a oedd yr Aelod Cabinet wedi  
derbyn unrhyw adborth gan gerddwyr ynghylch effaith y Gorchymyn Gwahardd Gyrru arbrofol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod wedi derbyn adborth gan drigolion lleol a darlennodd un o'r  
llythyrau at y Pwyllgor. Gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r Cyngor ei chefnogi hi a'r Tîm Diogelwch  
ar y Ffyrdd yn y mater hwn.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Iau, 12fed Rhagfyr, 2024 at 2.00 pm

[https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=ITVcu-XWoj\\_1HWsq&t=17532](https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=ITVcu-XWoj_1HWsq&t=17532)

#### **17. O'r Cynghorydd Sirol Martin Newell i'r Cynghorydd Sirol Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd**

*Yng ngoleuni'r llifogydd ar Wonastow Road fis diwethaf, pryd fydd yr Aelod Cabinet yn rhoi'r gorau ar gynlluniau i gau Goldwire Lane yn rhannol?*

<https://www.youtube.com/live/PHi1FvgAtig?si=M5qlqeF13BcNDz7d&t=17890>

Dyweddodd yr Aelod Cabinet y bydd y Gorchymyn Gwahardd yn cael ei dreialu am chwe mis, ac ar ôl hynny bydd yr effaith ar draffig yn cael ei asesu, ac a fydd angen mesurau pellach i sicrhau diogelwch holl ddefnyddwyr y ffordd. Cafodd Wonastow Road a sawl ffordd arall ar draws y rhanbarth lifogydd dros dro ar 24<sup>ain</sup> Tachwedd 2024.

Yn ystod digwyddiad brys, mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r gwasanaethau brys i sicrhau bod mynediad diogel a llwybrau egres yn cael eu darparu ar gyfer ein holl gymunedau. Mae pwysigrwydd llwybrau cerdded diogel yn ystod digwyddiadau brys yr un mor bwysig â mynediad i gerbydau. Cafwyd adborth gan bobl a oedd wedi cerdded i'r dref yn ystod y cyfnod hwn. Bydd cerbydau brys yn defnyddio pa ffyrdd bynnag sydd ar gael yn ôl yr angen, fel sy'n arfer arferol.

Fel cwestiwn atodol, gofynnodd y Cynghorydd Sirol Newell i'r Aelod Cabinet pryd y bydd synnwyr cyffredin yn cael ei ddefnyddio a throï'r ffordd yn llwybr a rennir ar gyfer cerbydau a cherddwyr gyda'r llwybr yn cael ei symud a phryd y bydd trigolion lleol yn cael eu hymgyngori?

Ymatebodd yr Aelod Cabinet drwy ddweud y bu sawl enghraifft o achosion agos o ran damweiniau. Cafwyd sawl cais am ddiogelwch. Roedd peryglon cerbydau sy'n defnyddio'r llwybr hwn fel llwybr byr wedi'u nodi. Mae mynediad priodol ar gyfer cerbydau ar hyd Somerset Road i Wonastow Road. Mae'n anghyfreithlon i gerbydau fod yn gyrru ar hyd y rhan hon o Goldwire Lane.

#### **18. O'r Cynghorydd Sirol Tony Kear i'r Cynghorydd Sirol Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd**

